Dysgu mwy a chymryd rhan Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2022

Beth yw Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel?

Mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar 8 Chwefror 2022. Mae'r diwrnod yma'n cael ei ddathlu ar draws y byd mewn dros 170 o wledydd. Mae miloedd o bobl ifanc ledled y DU yn ymuno yn y dathlu ac yn edrych ar sut maen nhw'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd yn gyfrifol, a pharchus, gan wneud y mwyaf o'u perthynas â gwahanol bobl ar-lein.

Safer Internet Day 2022

Mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn gyfle gwych i ganolbwyntio ar ddiogelwch ar-lein gyda'ch plentyn – drwy ddefnyddio rhai o'r gweithgareddau cyflym sydd yn y pecyn hwn, holi beth mae eich plentyn yn hoffi ei wneud ar-lein neu ddefnyddio ei hoff ap neu ei hoff gêm eich hun. Gallech hefyd gefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar y cyfryngau cymdeithasol, dweud wrth deulu a ffrindiau am y diwrnod, neu ofyn i'ch plentyn am ei gyngor gorau ar gyfer cadw'n ddiogel ar-lein. Cewch ragor o wybodaeth yma: saferinternetday.org.uk (Saesneg yn unig).

Thema Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2022 ydy...

HWYL A SBRI I BAWB

Archwilio parch a pherthynas ar-lein

O chwarae gemau a sgwrsio i ffrydio a fideo, mae pobl ifanc yn siapio'r gofodau adloniant rhyngweithiol y maen nhw'n rhan ohonynt. Mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2022 yn dathlu rôl pobl ifanc o ran creu rhyngrwyd fwy diogel, boed hynny wrth chwarae gemau a chreu cynnwys, neu ryngweithio gyda ffrindiau a chyfoedion.

Drwy ddefnyddio deunyddiau dysgu wedi'u teilwra, cynghorion ac adnoddau ar gyfer pob oedran, yn ogystal â chynnwys addysgwyr a theuluoedd, mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn herio pawb i chwarae eu rhan o ran meithrin perthynas gefnogol a chymunedau parchus ar-lein. O drafod y ffyrdd y gellir defnyddio'r rhyngrwyd i gyfathrebu i greu newid cadarnhaol mewn grwpiau ar-lein pan fo bwlio yn digwydd, mae'r diwrnod yn grymuso pobl ifanc i fod yn rhan ganolog o greu gwell rhyngrwyd.

Sut mae defnyddio'r pecyn hwn?

Mae'r pecyn hwn i rieni a gofalwyr yn cynnwys gwybodaeth a gweithgareddau i'ch helpu chi i gefnogi eich plentyn i ddefnyddio'r rhyngrwyd mewn ffordd gadarnhaol a diogel.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y canlynol:

Ysgogydd sgwrs	Cwestiynau a brawddegau defnyddiol i'ch helpu i ddechrau sgwrs â'ch plentyn am gadw'n ddiogel ar-lein.
Cynllun diogelwch ar-lein i'r teulu	Cynllun i helpu eich teulu i sefydlu sut byddwch chi'n defnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn gadarnhaol.
Gweithgareddau Teulu	Gweithgareddau hwyliog y gallwch eu gwneud â phlant o bob oed, i edrych ar barch a pherthynas ar-lein.
Taflen adnoddau i rieni a gofalwyr	Ffynonellau defnyddiol o gyngor a gwybodaeth ar-lein, gan gynnwys sut mae rhoi gwybod am broblemau ar-lein.

Sut gallaf ddangos fy nghefnogaeth?

Mae nifer o ffyrdd y gallwch chi a'ch teulu gymryd rhan yn y diwrnod a lledaenu'r gair ynghylch gwneud y rhyngrwyd yn rhywle diogel a chadarnhaol.

Cymryd rhan

Mae dros 170 o wledydd ar draws y byd yn dathlu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel. Byddwch yn rhan o'r sgwrs fyd-eang drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i helpu i hyrwyddo'r pethau anhygoel sy'n digwydd.

Defnyddiwch yr hashnodau hyn i helpu i ledaenu'r neges ar-lein. **#SaferInternetDay #playyourpart**

Bydd UK Safer Internet Centre yn postio llawer o gyngor am ddiogelwch ar-lein yn ystod y cyfnod cyn y diwrnod mawr ac ar y diwrnod ei hun. Byddwn yn rhannu nifer o negeseuon a chyngor gan eraill sy'n dathlu'r diwrnod ledled y DU.

Dilynwch ni i weld beth sydd yn digwydd ledled y DU a rhowch wybod i ni sut ydych yn dathlu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel drwy dagio ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol:

- Instagram: **@UK_SIC**
- Facebook: **saferinternetuk**
- Twitter: **@UK_SIC**
- YouTube: **UKSIC**

Examples of tweets and posts you can share:

- Rydw i'n cefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2022. Mae gan @UK_SIC gyngor i rieni a gofalwyr am gadw plant yn ddiogel ar-lein. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: www.saferinternetday.org.uk #SaferInternetDay @UK_SIC #playyourpart
- Rydw i'n dathlu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar 8 Chwefror #SaferInternetDay Mae mwy o wybodaeth am barch a pherthynas ar gael yn: www.saferinternetday.org.uk @UK_SIC #playyourpart
- Mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn ffordd wych o ddechrau siarad â phlant am ddiogelwch ar-lein. Dyna pam fy mod yn cefnogi'r diwrnod #SaferInternetDay www.saferinternetday.org.uk @UK_SIC #playyourpart

Cynnwys pobl eraill

Anogwch ysgol eich plentyn i gofrestru i gefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn saferinternetday.org.uk (Saesneg yn unig) a llwytho ein Pecynnau Addysg i lawr hefyd.

Siaradwch â'r bobl agosaf atoch chi. Mae croeso i bob mam-gu/nain, tad-cu/taid, ewythr, modryb a ffrind gymryd rhan a rhannu syniadau ynghylch gwneud y rhyngrwyd yn lle mwy diogel!

Cofrestrwch eich gweithle neu grŵp cymunedol fel un o gefnogwyr Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn saferinternetday.org.uk (Saesneg yn unig) er mwyn cael gafael ar ddeunyddiau hyrwyddo i helpu i rannu'r hyn rydych chi'n ei wneud i gefnogi'r diwrnod.

Cwestiynau?

Mae rhagor o wybodaeth am Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwydyn Fwy Diogel a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ledled y DU i ddathlu'r diwrnod ar gael yn www.saferinternetday.org.uk (Saesneg yn unig).

- Anfonwch e-bost atom: SID@saferinternet.org.uk (Saesneg yn unig)
- Cofrestrwch i gael ein cylchlythyr am ddim bob mis: bit.ly/UKSICNewsletter (Saesneg yn unig)